




Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Polisi Cynllunio

Nodyn Canllaw Cynllunio Lleol

Rhif 23 Cyfraniad Datblygwyr at Addysg

Mabwysiadwyd fel
canllawiau cynllunio
atodol ar 17eg Gorffennaf
2012



Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru (LIC) bu'r nodi yn destun cynnig a basiwyd gan y Cyngor ac fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol fel Canllawiau Cynllunio Atodol ar 17eg Gorffennaf. Bu'r ddogfen yn destun proses ymgynghori cyhoeddus 6 wythnos o hyd dros gyfnod rhwng 13eg Mehefin a 18eg Hydref 2011.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd a sut y mae'r briff wedi'i ddiwygio i gymryd y materion a godwyd i ystyriaeth wedi'u crynhoi yn y ddogfen Ymatebion i'r Briff Datblygu sydd i'w chael yn Atodiad 2).

Mae'n rhaid i ddatblygwyr ystyried y briff datblygu hwn wrth baratoi cynllun ar gyfer y safle hwn. Mae'n rhaid i unrhyw wahaniaethau gael eu cyfiawnhau gan y datblygwr.

1 | Cefndir y nodyn hwn

- 1.0 Dyma un o gyfres o nodiadau Canllaw Cynllunio Lleol a baratowyd i egluro ac i esbonio'r polisiau yng Nghynllun Datblygu Unedol (CDU) Sir y Fflint. Mae'r nodyn canllaw hwn yn canolbwyntio ar gyfraniadau gan ddatblygwyr at gyfleusterau addysgol.
- 1.1 Ceir eboniad mwy cyffredinol o'r modd y defnyddir Rhwymedigaethau Cynllunio o ran y mathau o rwymedigaethau a phryd y byddant, ac na fyddant, yn briodol yn Nodyn Canllaw Cynllunio Lleol 22, sef Rhwymedigaethau Cynllunio.
- 1.2 Mae Awdurdodau Lleol o dan bwysau ariannol cynyddol i ddiwallu'r anghenion addysgol sy'n codi o ddatblygiadau preswyl yn eu hardaloedd. Yn y pen draw, gall datblygiad cymharol fach gael effaith ariannol sylweddol ar y lle sydd ar gael mewn ysgol. Mae Cylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig, sef 'Rhwymedigaethau Cynllunio', yn darparu ar gyfer cyfraniadau gan ddatblygwyr i wrthbwysu canlyniadau negyddol y datblygiad cyhyd ag y bo cyfarwyddyd ar hyn yn y cynllun datblygu lleol. Mae CDU Sir y Fflint yn darparu'r cyfarwyddyd hwn yn ei bolisi ar Amodau, Cyfraniadau Datblygwyr a Rhwymedigaethau Cynllunio, Polisi IMP1 Amodau Cynllunio a Rhwymedigaethau Cynllunio. Mae gweddill y nodyn hwn yn esbonio gwybodaeth ychwanegol am anghenion addysgol penodol ac yn dangos sut y gellir cymhwyso'r polisi hwn i ddarparu cyfleusterau addysgol.

2 | Cynllunio Addysg yn Sir y Fflint

- 2.0 Mae gan Sir y Fflint Strategaeth Moderneiddio Ysgolion sy'n esbonio sut y bydd Awdurdod Lleol Sir y Fflint (yr ALI) yn darparu digon o lefydd addas mewn ysgolion. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am ddarparu digon o lefydd mewn ysgolion, a'r rheini mewn lleoliadau addas, gan osgoi gormod o lefydd gwag, a chan sicrhau bod digon o lefydd i ddisgyblion, yn unol â methodoleg fformwla capasiti'r Cynulliad.
- 2.1 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i'r ALI sicrhau nad oes dim mwy na 30 o ddisgyblion ym mhob dosbarth CA1, ac mae'n ofynnol iddo gadw at yruchafswm hwnnw yn CA2.
- 2.2 Er bod llefydd gwag ar hyn o bryd mewn rhai ysgolion, mewn ardaloedd eraill mai llefydd yn brin iawn, ac mae hynny'n arwain at achosion apêl gan rieni pan wrthodir lle i'w plant. Mewn rhai ysgolion, dim ond mewn rhai grwpiau blwyddyn penodol mae llefydd gwag. Nid yw llefydd gwag mewn ysgol o reidrwydd yn golygu bod digon o le yn yr ysgol honno.
- 2.3 Mae amcanion polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu cynaliadwy'n cynnwys yr angen i leoli datblygiadau mewn modd sy'n lleihau'r angen i deithio i gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgolion, ac i'w gwneud yn haws eu cyrraedd, gan greu cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddatblygu cymunedau ac i hybu lles cymdeithasol. Gall datblygiad newydd mewn cymuned effeithio'n sylweddol ar gyfleusterau, fel lle mewn ysgolion lleol. Bryd hynny, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau cyfraniadau priodol gan ddatblygwyr i liniaru'r problemau y bydd eu datblygiad yn eu creu yn yr yr ysgol addas agosaf.
- 2.4 Mewn rhai ardaloedd yn y Sir, mae tir wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad preswyl ac, eisoes, mae mwy o geisiadau am le yn yr ysgol leol na nifer y llefydd sydd ar gael. Mae'r datblygiad yn rhoi

pwysau ychwanegol ar yr ysgol leol ac, weithiau, gall hyn olygu nad oes lle i bawb sy'n gwneud cais. Gall y gost o ymestyn yr ysgol i greu rhagor o lefydd fod yn drwm iawn ac, ar hyn o bryd, yr unig ffordd ymarferol i sicrhau bod digon o lefydd ar gael yw drwy sicrhau bod y datblygwyr yn cyfrannu'n ariannol at y gost honno.

2.5 Gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan y Cyngor, ystyrir effaith y galw am lefydd mewn ysgol ac, yn y dyfodol, effaith y cynllun moderneiddio ysgolion, ar ysgolion gerllaw'r datblygiad preswyl newydd, a hynny pan gaiff y cais cynllunio'i gyflwyno, a bydd hyn yn rhan o'r trafodaethau cychwynnol.

3 | Meini prawf

3.0 Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd system dda o ran rhwymedigaeth cynllunio o gymorth i hyrwyddo lles economaidd. Ni fydd yn gosod baich amhriodol ychwanegol ar ddatblygwyr a fyddai'n peri iddynt beidio â bwrw ymlaen â datblygiad buddiol. Fodd bynnag, mae'n bwysig egluro gofynion y polisi fel bod gwir gost y datblygiad yn cael ei hadlewyrchu mewn trafodaethau rhwng y tiffeddianwyr a'r datblygwyr. Y nod yw sicrhau bod pawb yn ymwybodol, yn gynnwys iawn yn y broses ddatblygu, o'r gofynion a'u goblygiadau o ran gwerth tir.

3.1 Caiff cyfraniadau datblygwyr eu seilio ar y canlynol:

1. Datblygiadau sy'n cynnwys 5 annedd neu ragor neu, os nad yw nifer yr anheddau'n hysbys, safle o 0.2 hectar neu ragor.
2. Bydd y Cyngor yn gofyn am gyfraniadau at addysg ym mhob achos os bydd gan yr ysgolion dan sylw lai na 5% o lefydd gwag ar ôl ystyried y datblygiad arfaethedig. Gofynnir am gyfraniadau dim ond ar gyfer nifer y disgyblion a fyddai'n peri i nifer y llefydd gwag ostwng i lai na 5%, ac nid ar gyfer cyfanswm y disgyblion ychwanegol y disgwylir i'r datblygiad eu cynhyrchu. Bydd yr ALI yn defnyddio'r cyfraniadau i ariannu gwaith yn yr ysgolion hynny y bydd y datblygiad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.
3. Os bodlonir paragraff 2 uchod, bydd angen cyfraniadau at gyfer yr ysgol gynradd neu uwchradd addas agosaf, neu'r ddwy. Bydd unrhyw ddatblygiad, waeth pa mor fach, yn effeithio ar yr ysgolion cyfagos, a dylid cydnabod hynny. Mae gwbyodaeth am y llefydd sydd ar gael yn ysgolion cynradd ac uwchradd y sir i'w chael ar wefan Cyngor Sir y Fflint. Mae'n bwysig nodi mai canllaw yn unig yw'r rhestr hon ac mae'n bosibl y bydd rhywfaint o amrywiaeth yn y gwir ffigurau, felly mae'n bwysig hefyd cysylltu â'r Adran Dysgu Gydol Oes i gael y wybodaeth ddiweddaraf.
4. Dim ond yr ysgolion hynny y bydd y datblygiad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt fydd yn cael y cyfraniad ariannol. Weithiau, bydd cynnig i godi mwy nag un datblygiad yn agos iawn at ei gilydd, gan arwain at yr angen i greu cyfleusterau ychwanegol ac, o dan yr amgylchiadau hyn, lle mae effaith gronnydd, gall y Cyngor gyfuno'r cyfraniadau i ariannu'r cyfleusterau angenrheidiol.
5. Wrth gyfrifo llefydd gwag mewn ysgolion, bydd yr Awdurdod yn ystyried datblygiadau sydd wedi'u cymeradwyo a'u heffaith ar nifer y disgyblion yn y dyfodol.
6. Bydd unrhyw daliadau y bydd y Cyngor yn eu derbyn o ganlyniad i gytundebau cynllunio'n cael eu cadw mewn cyfrifon sy'n talu llog, a chanddynt god cyllido unigryw. Caiff yr arian ei ddefnyddio dim ond at y dibenion a nodir yn y rhwymedigaeth a fydd hefyd yn nodi'r ysgol



a fydd yn elwa o'r arian; os na chaiff yr arian ei wario'n briodol, neu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, caiff y swm ei ad-dalu, gan gynnwys unrhyw log.

7. At ddibenion cyfraniadau cynllunio, caiff nifer y llefydd sydd ar gael mewn ysgol ei gyfrifo heb gynnwys y llefydd a grëwyd drwy ddefnyddio adeiladau dros dro, e.e. cabannau, ar dir yr ysgol.

4 | Defnyddio Cyfraniadau

- » Darparu ysgolion neu ystafelloedd dosbarth newydd
- » Gwella ac adnewyddu cyfleusterau presennol i greu rhagor o le.
- » Gwella adeiladau a darparu adnoddau cysylltiedig i ganiatáu i'r ysgolion dan sylw ddiwallu anghenion sy'n codi oherwydd y disgyblion ychwanegol.

5 | Eithriadau

5.0 Dyma'r datblygiadau preswyl a fydd wedi'u heithrio rhag darparu rhagor o lefydd i ddisgyblion, ac na fydd awdurdodau lleol yn gofyn iddynt am gyfraniadau ariannol.

- » Tai sy'n cael eu cynllunio'n benodol ar gyfer pobl oedrannus (hy a chanddynt amodau cynllunio neu gytundeb i ymgartrefu pobl 55 oed neu hŷn yn unig)
- » Anheddau un llofft neu fflatiau 1 llofft.

6 | Rhwymedigaethau'r Cyngor

6.0 Wrth drafod gyda'r Cyngor, gall y datblygwr ddisgwyl i Gytundebau Adran 106 ymdrin â'r canlynol:

- » Yr ysgolion a fydd yn elwa o'u cyfraniadau.
- » Pryd y gwneir y cyfraniadau y cytunir arnynt.
- » Caiff y cyfraniadau eu gwario cyn pen 10 mlynedd fel arfer.
- » Mae'n bosibl na fydd cyfraniadau datblygwr unigol yn ddigon ynddynt eu hunain i ariannu prosiectau penodol. Os felly, bydd yr arian yn cael ei gyfuno â chyfraniadau datblygwyr eraill i ariannu'r cyfleusterau angenrheidiol.
- » Bydd y Cyngor yn paratoi Datganiad Blynyddol o gronfeydd a dderbyniwyd drwy Gytundebau Adran 106.

7 | Y fformwla gyfrannu

7.0 Caiff cyfraniadau tuag at wella cyfleusterau ysgolion neu godi cyfleusterau ysgol newydd eu seilio

ar y ffactorau a ganlyn:

- » A. Nifer yr unedau preswyl cymwys yn y datblygiad (5 neu ragor neu safle dros 0.2 hectar).
- » B. Nifer y plant oedran ysgol sy'n debygol o ddod o bob uned breswyl, 0.24 yw'r lluosydd yn achos ysgolion cynradd a 0.174 yw'r lluosydd yn achos ysgolion uwchradd. Ar hyn o bryd, mae'r ffigurau uchod ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyfateb, mwy neu lai, i ffigurau awdurdodau lleol eraill a chânt eu hadolygu bob blwyddyn.
- » C. Canllawiau costau

Caiff y gost gyfartalog o ddarparu lle mewn ysgol ei seilio ar:

- » Ddata Canllawiau Llywodraeth Cymru (Mesur Capasiti Ysgolion Cymru yng Nghylchlythyr 09/06) i gyfrifo faint o le sydd ei angen ar bob disgybl.
- » Data Cost a Pherfformiad DFES/DCSF a gaiff ei ddiweddarau'n unol ag 'All Tender Index' Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae ffigurau'r Lluosyddion Costau Adeiladu i'w cael yn Atodiad 1 a chânt eu diweddarau bob blwyddyn.

Dyma'r fformwla a ddefnyddir:

Nifer yr unedau tai x 0.24 (fformwla ysgolion cynradd) = Nifer y plant a gynhyrchir (ar ôl cyfrifo'r 5% o lefydd gwag, os yw hynny'n berthnasol) x £12,257 lluosydd cost fesul disgybl = Cyfraniad y datblygwr (gan ddefnyddio'r ffigurau lluosydd costau 2008/09)

Disgyblion ysgolion cynradd

Er enghraifft, os oes lle i 200 o ddisgyblion mewn ysgol, 5% fyddai 10 disgybl felly dyma sut y byddai'r sbardun ar gyfer cyfraniadau yn cael ei gyfrifo:- 190 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Ac os mai gwir nifer y disgyblion yw 185

Datblygiad sy'n cynnwys 50 o dai: $50 \times 0.24 = 12$ o ddisgyblion

$$185 + 12 = 197$$

$$197 - 190 = 7$$

Byddwn yn gofyn am gyfraniad ar gyfer 7 disgybl yn unig.

$$7 \times £12,257 = £85,799$$

Ysgolion uwchradd

Er enghraifft, os oes lle i 1700 o ddisgyblion mewn ysgol, 5% fyddai 85 o ddisgyblion felly dyma sut y byddai'r sbardun ar gyfer cyfraniadau yn cael ei gyfrifo:- 1615 i ddisgyblion ar y gofrestr.

Ac os mai gwir nifer y disgyblion yw 1610

Datblygiad sy'n cynnwys 50 o dai $50 \times 0.174 = 8.7$ o ddisgyblion (talgrynnu i 9)

$$1610 + 9 = 1619$$

$$1619 - 1615 = 4$$

Byddwn yn gofyn am gyfraniad ar gyfer 4 disgybl yn unig.

$$4 \times £18,469 = £73,876$$

Atodiad 1

Lluosydd costau adeiladu ar gyfer 2008/09* oedd

- » Cynradd £12,257
- » Uwchradd £18,469

* DS: Dyma'r ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd ond mae'r Cyngor yn cadw llygad ar y rhain yn barhaus ac yn eu diweddarau'n ôl yr angen.

Sylwadau ac Ymatebion i nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol Rhif 23. Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg

Sefydliad	Sylwadau	Ymateb Ystyrion	Penderfyniad a gweithredu
Anwyl Construction. Mike Pender	<p>1. Ni all y Canllawiau Cynllunio Lleol gario pwysau sylweddol fel ystyriaeth cynllunio materol at ddibenion rheoli datblygu oni bai bod y profion canlynol yn cael eu bodlonni -</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu – nid yw hyn wedi digwydd eto 	<p>Mae pob nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion rheoli datblygu ac maen nhw'n ystyriaethau materol. Yn amlwg, maen nhw'n cario mwy o bwysau ar ôl eu mabwysiadu neu os ydyn nhw'n rhan o gynllun sydd wedi'i fabwysiadu ond nid yw'n wir nad ydyn nhw'n cario pwysau materol oni bai bod y Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu. Unwaith y bydd y nodiadau'n cael eu mabwysiadu'n ffurfiol maen nhw'n dod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r awdurdod yn bwriadu mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Lleol fel rhan o'r Cynllun Datblygu Unedol a gafodd ei fabwysiadu gan y cyngor ar 28 Medi 2011.</p>	Dim gweithredu
	<p>2. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus – nad yw wedi'i gynnal hyd yn hyn – felly ni ddylid defnyddio'r Canllawiau Cynllunio Lleol at ddibenion rheoli datblygu</p>	<p>Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill. Mae'r ymgynghoriad hwn gyda'r datblygwyr trwy'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai yn rhan o'r broses honno. Mae'r nodyn hefyd yn</p>	Dim gweithredu

	ar hyn o bryd.	ymddangos ar y wefan er mwyn i aelodau'r cyhoedd ei weld a chyflwyno sylwadau arno. Gan fod y Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus pellach ar gyfer yr holl nodiadau Canllawiau Cynllunio Lleol gyda'r bwriad o'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol fel rhan o'r Cynllun mabwysiedig.	
	3. Sail tystiolaeth – tystiolaeth annigonol – dim rhagamcanion o nifer y disgyblion yn y tymor canolig, dim rhagamcanion o nifer y lleoedd yn y tymor canolig (gan gynnwys blaen raglen gyfalaf ysgolion)	Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar leoedd gwag mewn ysgolion a rhaglen gyfalaf ysgolion yn y tymor hir, ar gael trwy'r Adran Dysgu Gydol Oes. Dylid ychwanegu hyn fel eglurhad at y nodyn canllaw.	Newid paragraff 2.5 o'r nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol i ddarllen 'Gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd gan y Cyngor, bydd effeithiau'r gofyn am leoedd ysgol ac effeithiau'r cynllun moderneiddio ysgolion ar ysgolion yng nghyffiniau'r datblygiad trigiannol newydd yn cael eu hystyried adeg y cais cynllunio a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r broses drafod ar y pryd.'

	<p>4. Ar sail yr uchod nid yw'n cydymffurfio â Chylchlythyr 13/97 Llywodraeth Cymru – angenrheidiol, rhesymol – ac felly ni ddylai gael ei weithredu.</p>	<p>Mae angen fformiwla i roi sicrwydd mewn achosion pan fydd angen cyfraniad. Diben y canllaw yw egluro sut y bydd y Cyngor yn bwriadu trafod gyda datblygwyr i gael cyfraniadau. Mae'r canllawiau'n rhesymol gan na ofynnir am gyfraniadau oni bai y bydd y datblygiad yn debyg o roi ysgol o dan bwysau ychwanegol.</p>	<p>Dim gweithredu</p>
	<p>5. Cynlluniau moderneiddio ysgolion – dim awgrym ynghylch pa ysgolion fydd yn cael eu cau, eu huwchraddio ayb a phaham?</p>	<p>Ar hyn o bryd mae ymgynghoriad eang yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r Rhaglen Foderneiddio Ysgolion. Adroddir yn ôl yn rheolaidd i'r Cyngor ynghylch cynnydd y cynllun a bydd unrhyw newidiadau perthnasol yn cael eu datgan yn gyhoeddus.</p>	<p>Newid paragraff 2.5 o'r nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol i ddarllen 'Gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd gan y Cyngor, bydd effeithiau'r gofyn am leoedd ysgol ac effeithiau'r cynllun moderneiddio ysgolion ar ysgolion yng nghyffiniau'r datblygiad trigiannol newydd yn cael eu hystyried adeg y cais cynllunio a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r broses drafod ar y pryd.'</p>

	<p>6. Manylion Dim dalgylchoedd ysgol i arwain polisi. Mae yna Ardaloedd Trefnu Ysgolion yn y ddogfen Moderneiddio Ysgolion ond mae'n aneglur pa ddiben, swyddogaeth, statws a phwysau sydd gan y rhain .</p>	<p>Mae Polisi Derbyn Cyngor Sir y Fflint i'w weld yn y ddogfen 'Canllawiau i Wasanaethau Addysg 2011'. Nid yw'r Sir yn defnyddio 'dalgylchoedd' ac mae'r ddogfen hon yn manylu ar y meini prawf sy'n cael eu defnyddio ar gyfer derbyn i ysgolion Meithrin, Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd. O ran derbyn i Ysgolion Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd mae'r polisi'n datgan ym meini brawf 'b' 'disgyblion mai eu dewis ysgol yw'r ysgol briodol agosaf i gyfeiriad cartref y disgyblion'. Mae troed nodyn pellach yn datgan 'Os oes mwy o ymgeiswyr nag o lleoedd yn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol, yn cael ei fesur o gyfeiriad cartref y plentyn at brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol'.</p> <p>Yn amlwg, os nad oes lle yn yr ysgol agosaf, bydd y disgybl yn cael cynnig lle yn yr ysgol agosaf nesaf, neu gallai'r rheini fynd i apêl. Fodd bynnag, mae Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint yn datgan ein bod angen cydweithio i sicrhau ein bod yn lleihau'n ôl troed carbon drwy leihau patrymau teithio ac adeiladu cymunedau cynaliadwy. Felly, fe ddylem ddarparu gwasanaethau ar</p>	<p>Dim gweithredu</p>
--	--	--	-----------------------

		<p>gyfer y cymunedau lleol o fewn y cymunedau hynny yn unol â'r strategaeth a pheidio â chludo disgyblion i gymunedau sy'n fwy na 2 filltir i ffwrdd. Dylai datblygwyr felly gyfrannu at ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y cymunedau lle maen nhw'n eu datblygu. Yn aml, bydd presenoldeb ysgol leol yn cael ei ddefnyddio fel teclyn marchnata positif ar gyfer datblygiad newydd gerllaw.</p>	
	<p>7. Mae'r polisi derbyn yn anfon disgybl at yr ysgol agosaf – ond os nad oes lle, i'r ysgol agosaf nesaf.</p> <p>Ysgol agosaf - angen eglurhad / cyfiawnhad</p> <ul style="list-style-type: none"> - y llwybr a ddefnyddir a'r addasrwydd – a yw'r llwybr a fydd yn cael ei fesur yr un mwyaf amlwg a'r mwyaf diogel. - Beth pe byddai'r pellteroedd bron iawn yr un fath – neu pe byddai'r gwahaniaeth yn 'de minimus'. (Yn ein hachos ni yn Northop Hall – mae un ysgol yn 2.59 milltir a'r llall yn 2.43 milltir – gwahaniaeth o 280 llath). - A fyddai'r disgyblion yn teithio ar gludiant cyhoeddus beth 	<p>Fel pwynt 6 uchod. Cyfrifir y pellter at yr ysgol agosaf i'r fetr agosaf a dyna sy'n penderfynu pa un yw'r ysgol agosaf. Nid yw cludiant cyhoeddus yn berthnasol.</p>	<p>Dim gweithredu</p>

	bynnag gan wneud y mater yn amherthnasol?		
	<p>8. Lleoedd Mewn Ysgolion – ar ba sail y mae Sir y Fflint wedi asesu 10% o lleoedd gwag fel man torri i ffwrdd – pe byddai gan bob ysgol 10% o leoedd gwag beth fyddai'r cyfiawnhad dros ofyn am gyfraniadau.</p> <p>Ymddengys fod Sir y Fflint yn rhoi caniatâd iddyn nhw eu hunain i wario'r arian ar adnoddau amhenodol (Adran 4, 3ydd pwynt bwled) – dylid gwario'r arian ar gynyddu lleoedd yn unig – nid ar adnoddau amhenodol yn seiliedig ar fwy o ofyn.</p>	<p>Cyfeiriaf at y sylwadau yng Ngoblygiadau Cynllunio Drafft, Nodyn 7, Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. “Nid yw lleoedd gwag i ddisbyblion yn golygu o angenrheidrwydd fod gormod o leoedd gwag mewn ysgol, gan y derbynnir yn gyffredinol na ddylai ysgolion, er mwyn galluogi cynllunio ar gyfer darpariaeth yn y blynyddoedd i ddod, fod yn gweithredu ar 100%. Mae adroddiad 2002 y Comisiwn Archwilio, ‘Trading Places’ yn datgan <i>‘mae’n afrealistig ac, mae’n debyg, yn annymunol i anelu am gydweddiad perffaith o ddisgyblion a lleoedd ym mhob ysgol. Dylai fod rhywfaint o lwfans i ganiatáu dewis i rieni.... Nid yw pob lle gwag yn lle dros ben.’</i> Fodd bynnag, rydym yn cyfaddef y byddai hyblygrwydd o 5% o leoedd gwag yn dderbyniol, er, y byddwn yn ei adolygu’n ddiweddarach pe byddai hyn ymddangos yn broblem.</p> <p>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n</p>	<p>Newid paragraff 3.1 pwynt 2 o'r Canllawiau Cynllunio Lleol i ddarllen ‘Bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau addysg ym mhob achos pan fydd gan yr ysgolion a nodir lai na 5% o leoedd dros ben ar ôl ystyried y datblygiad arfaethedig. Dim ond ar gyfer y nifer o ddisgyblion a fyddai'n dod â'r lleoedd dros ben o dan 5% y dylid gofyn am gyfraniadau yn hytrach na cyfanswm y nifer y gellir ei ddisgwyl o'r datblygiad.</p> <p>Newid paragraff 7.0 maen prawf c. Enghreifftiau o'r fformiwla i ddarllen, <u>Ysgol Gynradd 200</u> o leoedd ysgol, 5% fyddai 10 disgybl, felly'r sbardun ar gyfer cyfraniadau fyddai</p>

		<p>datgan na ddylai ysgolion fod â mwy na 10% o leoedd gwag ar gofrestrau'r ysgolion. Awdurdodau eraill sy'n defnyddio 10% o leoedd dros ben yw Sir Benfro a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae Sir Benfro'n sôn y dylid caniatáu ar gyfer amrywiadau yn y niferoedd yn yr ysgolion ac hefyd mewn perthynas â phwysau posibl am leoedd ysgol yn y dyfodol yn codi o newidiadau yn y Cwriciwlwm Cenedlaethol. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn sôn efallai bydd angen am 10% o leoedd gwag ond yn dibynnu ar amgylchiadau. Mae angen byffer o ran y nifer a fydd yn cael eu derbyn i ysgol er mwyn sicrhau'r nifer angenrheidiol o leoedd i ddarparu ar gyfer dewis rhieni a newidiadau demograffig bychain ac i fod yn hyblyg o ran amrywiadau naturiol ar gofrestrau ysgolion.</p> <p>Derbynnir felly y dylid newid bod angen 10% o leoedd dros ben, neu 20 o leoedd mewn gwirionedd, i 5%. Ystyrir bod yn rhaid cael lleoedd dros ben i ganiatáu ar gyfer yr amrywiadau ar gofrestrau ysgolion ac y byddai 5% yn cael ei ystyried yn newid derbyniol. Cynigir gostwng i 5% ac yn ogystal mai dim ond ar gyfer nifer y disgyblion a</p>	<p>rhagamcan o 190 ar y Gofrestr. Nifer gwirioneddol y Disgyblion 185 Datblygiad o 50 o dai $50 \times 0.24 = 12$ disgybl</p> <p>$185 + 12 = 197$</p> <p>$197 - 190 = 7$ Ar gyfer saith disgybl yn unig y gofynnir am gyfraniad.</p> <p>$7 \times \pounds 12,257 = \pounds 85,799$</p> <p><u>Ysgol Uwchradd</u> 1700 o leoedd ysgol, 5% fyddai 85 disgybl a'r sbardun ar gyfer cyfraniadau fyddai rhagamcan o 1615 ar y Gofrestr. Nifer gwirioneddol y Disgyblion 1610 Datblygiad o 50 o dai $50 \times 0.24 = 8.7$ (dyweder 9)</p> <p>$1610 + 9 = 1619$</p>
--	--	---	--

		<p>fyddai'n dod â'r lleoedd dros ben o dan 5% y dylid gofyn am gyfraniadau, yn hytrach na'r cyfanswm y gellid ei ddisgwyl o'r datblygiad.</p> <p>Ystyrir y byddai lefel is yn fwy rhesymol a hefyd yn unol â gofynion nodiadau Canllawiau Cynllunio mwy diweddar, er enghraifft, Blaenau Gwent sy'n defnyddio lefel o 5%.</p> <p>O ran adnoddau amhenodol a grybwyllir yn y nodyn, dim ond i ychwanegu at leoedd yn yr ysgolion hynny y gofynnir am gyfraniadau gan ddatblygwyr. Gallai hynny olygu ymestyn yr adeiladwaith neu gallai olygu ailwampio gofod mewnol neu adnewyddu ysgol a darparu adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwelliannau er mwyn galluogi'r ysgol/ion a effeithir i ddarparu digon o le ar gyfer y disgyblion ychwanegol.</p>	<p>1619 -1615 = 4 Ar gyfer pedwar disgybl yn unig y gofynnir am gyfraniad.</p> <p>4 x £18,469 = <u>£73,876</u></p> <p>Newid y trydydd pwynt bwled o dan baragraff 4 Defnyddio Cyfraniadau fel a ganlyn:- Darparu lle, gwelliannau ac adnoddau cysylltiedig er mwyn galluogi'r ysgol/ion sy'n cael eu heffeithio i gael digon o le ar gyfer y disgyblion ychwanegol.</p>
	<p>9. Monitro / Gwario – ymddengys nad oes Datganiad Blynyddol yn dangos yr Arian a gasglwyd a'r cynlluniau ar gyfer ei wario.</p>	<p>Derbyniwyd - mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar Gytundebau 106 yn gyffredinol a bwriedir cynhyrchu Datganiad Blynyddol ynghylch y cyllid i gynnwys yr holl Gytundebau 106.</p>	<p>Ychwanegu pumed pwynt bwled at baragraff 6 Goblygiadau'r Cyngor yn y nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol i ddarllen, 'Bydd y Cyngor yn paratoi Datganiad Blynyddol ynghylch yr</p>

			arian a dderbyniwyd drwy Gytundebau Adran 106'.
	10. Amserlen – a yw 10 mlynedd yn gyfnod rhy hir ar gyfer gwario'r arian – a ddylid gofyn dechrau gwario'r arian o fewn 5 mlynedd o ddechrau'r gweaith adeiladu.	Mae'r rhaglen cyfalaf Ysgolion yn rhedeg am gyfnod o 10 mlynedd felly mae'n rhaid ac mae'n rhesymegol i'r Cyngor gadw at y cyfnod o 10 mlynedd. Nid yw'r cyfraniadau y gofynnir amdany'n nhw o dan y canllawiau yma'n ddigon i dalu holl gostau darparu rhagor o leoedd mewn ysgolion. Bydd yn rhaid i'r Cyngor hefyd, bob amser, gynllunio drwy'r Rhaglen Cyfalaf Ysgolion ar gyfer talu'r costau llawn.	Dim gweithredu
Ffederasiwn Adeiladwyr Tai – Richard Price	11. Mae'r ddogfen yn datgan yn benodol mai'i diben yw egluro'r polisiau sydd yn y Cynllun Datblygu Unedol, nad yw wedi'i fabwysiadu eto. Felly, ni ellir defnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer dibenion rheoli datblygu nes y bydd wedi'i fabwysiadu a'i fod yn cydfynd â gofynion canllawiau cenedlaethol ynghylch ffurfio canllawiau cynllunio ategol,	Mae pob nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion rheoli datblygu ac yn ystyriaethau materol. Yn amlwg, maen nhw'n cario mwy o bwysau os ydyn nhw wedi'u mabwysiadu neu'n ffurfio rhan o gynllun wedi'i fabwysiadu ond mae'n anghywir dweud nad ydyn nhw'n cario pwysau materol oni bai bod y Cynllun Datblygu Unedol wedi'i fabwysiadu. Unwaith y bydd y nodiadau wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol maen nhw'n dod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol. Bwriad yr awdurdod yw mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Lleol ar y cyd â'r	Dim gweithredu

		Cynllun Datblygu Unedol a gafodd ei fabwysiadau gan y Cyngor ar 28 Medi 2011.	
	12. Rydyn ni o'r farn bod angen rhagor o wybodaeth ynghylch faint o leodd sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion a sut y cafodd hyn ei ddefnyddio i ddylanwadu ar y gofynion addysgol sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol.	Mae'r wybodaeth ar gael drwy'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes. Yn amlwg, gan fod nifer y disgyblion mewn ysgolion yn amrywio, ni ellir cynnwys yr wybodaeth yn y nodyn canllawiau ond derbynnir y dylid cael rhagor o wybodaeth yn y nodyn er mwyn ei gwneud yn glir y defnyddir yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn ystod y broses drafod.	Newid paragraff 2.5 y nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol i ddarllen 'Gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd gan y Cyngor, bydd effeithiau'r gofyn am leoedd ysgol ac effeithiau'r cynllun moderneiddio ysgolion ar ysgolion yng nghyffiniau'r datblygiad trigiannol newydd yn cael eu hystyried adeg y cais cynllunio a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r broses drafod ar y pryd.'
	13. O ran y pum anheddle a'r trothwy o 10% o leoedd gwag, ac yng nghydestun fod gofyn cael goblygiadau cynllunio, nid yw'n ddigon gosod trothwyon a chyfyngiadau mympwyol a fydd yn sbarduno gofynion. Mae'n rhaid cael cyfiawnhad clir ar gyfer y trothwyon a'r cyfyngiadau a dylai'r Canllawiau Cynllunio Lleol gynnwys meini prawf a	Cafodd y cyfiawnhad dros osod trothwy aneddeleoedd o 5 neu ei seilio ar nifer disgyblion. Datblygiad o bump anheddle yw'r ffigur sy'n cynhyrchu un disgybl. Gallai dim ond un disgybyl ychwanegol osod pwysau afresymol ar rai o ysgolion Sir y Fflint sydd eisoes o dan bwysau. Ystyrir felly bod pum anheddle'n drothwy rhesymol o gofio na	Dim gweithredu

	<p>methodoleg yn dangos sut a pham y maen nhw wedi'u dewis.</p>	<p>ofynnir am gyfraniadau lle mae yna ddigon o leoedd eisoes mewn ysgolion lleol. Mae'r cyfiawnhad hwn wedi'i gynnwys yn y nodyn. Mae'n bwysig nodi mai pum anheddle yw'r trothwy hefyd ar gyfer creu cytundeb Adran 106 i ddarparu manau agored.</p>	
	<p>14. O ran polisi derbyn, mae'r Canllawiau Cynllunio Lleol yn datgan, os yw'r gofyn yn yr ysgol agosaf yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael, y bydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol agosaf nesaf. Yn hynny o beth, wrth ofyn am oblygiadau cynllunio ar gyfer gofynion addysgol, rydyn ni o'r farn y dylai'r Cyngor hefyd ystyried faint o leoedd sydd yna yn yr ysgolion cyfagos yn ogystal â faint o leodd sydd yn yr ysgolion agosaf er mwyn sicrhau fod y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio'n briodol.</p>	<p>Mae Polisi Derbyn Cyngor Sir y Fflint i'w ganfod yn y ddogfen 'Canllawiau i Wasanaethau Addysg 2011'. Nid yw'r Sir yn defnyddio 'dalgylchoedd' ac mae'r ddogfen hon yn manylu ar y meini prawf derbyn sy'n cael eu defnyddio ynghylch cymhwysedd i ysgolion Meithrin, Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd. O ran derbyn i Ysgolion Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd, mae'r polisi'n datgan ym meini brawf 'b' fod 'disgyblion mai eu dewis ysgol yw'r ysgol briodol agosaf i gyfeiriad cartref y disgyblion'. Mae troed nodyn arall yn datgan 'Os oes mwy o ymgeiswyr na lleoedd mewn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf at yr ysgol, yn cael ei fesur o gyfeiriad cartref y plentyn at brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol'.</p> <p>Yn amlwg, os nad oes lle yn yr ysgol</p>	<p>Dim gweithredu</p>

		<p>agosaf, bydd y disgybl yn cael cynnig lle yn yr ysgol agosaf nesaf, neu gallai'r rheini fynd i apêl. Fodd bynnag, mae Strategaeth Cymunedol Sir y Fflint yn datgan y dylem gydweithio i sicrhau ein bod yn lleihau'n ôl troed carbon drwy leihau patrymau teithio ac adeiladu cymunedau cynaliadwy. Felly, dylem ddarparu ar gyfer anghenion y cymunedau am wasanaethau lleol o fewn y y cymunedau hynny ac yn ôl y strategaeth a pheidio â chludo disgyblion i gymunedau sy'n fwy na 2 filltir i ffwrdd. Dylai datblygwyr felly fod yn cyfrannu at ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y cymunedau maen nhw'n eu datblygu. Yn aml, bydd presenoldeb ysgol leol yn cael ei ddefnyddio fel teclyn marchnata positif ar gyfer datblygiad newydd gerllaw.</p>	
	<p>15. O ran y fformiwla gyfraniadau, dydyn ni ddim yn glir sut y cyfrifwyd y lluosyddion cyfraniadau ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Unwaith eto, dydyn ni ddim yn meddwl ei fod yn ddigon da gosod meini prawf mympwyol ar gyfer goblygiadau cynllunio.</p>	<p>Cafodd y lluosyddion eu paratoi gan ddefnyddio gwead ystadegol y sir ac maen nhw wedi'u cymharu gydag awdurdodau eraill er mwyn gwneud yn siŵr fod ein lefel yn debyg i'r gweddill o Gymru. Mewn gwirionedd, mae ei lluosydd yn llai beichus na rhai'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill. Mae hefyd yn berthnasol nodi mai dim ond ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cael eu</p>	<p>Dim gweithredu</p>

		cynnwys yn y gofynion sydd hefyd yn llai beichus nag yn y rhan fwyaf o awdurdodau eraill.	
	16. Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai o'r farn y dylid cael rhagor o wybodaeth yn benodol ar gyfer nodi effeithiau'r Strategaeth Moderneiddio Ysolion ar gyfraniadau addysgol a'i swyddogaeth mewn sicrhau'r cyfraniadau hynny o ddatblygiadau trigiannol. Dylid dangos hyn yn glir cyn y bydd angen cyfraniadau addysgol fel rhan o'r Canllawiau Cynllunio Lleol yma.	Mae'r wybodaeth ar gael drwy'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes. Yn amlwg, gan fod nifer y digybllion mewn ysgolion yn amrywio, byddai'n anodd cynnwys yr wybodaeth yn y nodyn canllawiau ond derbynnir y dylid cael rhagor o wybodaeth yn y nodyn er mwyn ei gwneud yn glir y defnyddir yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn ystod y broses drafod.	Newid paragraff 2.5 y nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol i ddarllen 'Gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd gan y Cyngor, bydd effeithiau'r gofyn am leoedd ysgol ac effeithiau'r cynllun moderneiddio ysgolion ar ysgolion yng nghyffiniau'r datblygiad trigiannol newydd yn cael eu hystyried adeg y cais cynllunio a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r broses drafod ar y pryd.'
	17. Rydyn ni o'r farn y dylai'r Canllawiau Cynllunio Lleol yma ddangos pwysigrwydd y cyfraniadau addysg mewn hierarchiaeth o bob dyletswydd cynllunio arall a allai fod eu hangen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn Sir y Fflint. Hefyd, mae'n rhaid i'r nodyn Canllawiau ddangos yn glir pa effaith y gallai'r eu gofyniadau ei gael ar ddarparu dyletswyddau cynllunio	Mae yna lawer o ysgolion yn y Sir sydd bron yn llawn neu'n fwy na llawn. Mae'r cyngor o'r farn ei bod yn flaenoriaeth sicrhau bod hynny'n cael ei liniaru pan fydd tai yn cael eu codi ger yr ysgolion hynny a fyddai'n ychwanegu at eu pwysau. O ran dyletswyddau cynllunio eraill, does yna ddim hierarchiaeth o ofnion, mae pob un mor bwysig â'i	Dim gweithredu

	<p>eraill (llai hanfodol) a dylai hefyd fod ag ateb ymarferol wedi'i ddiffinio'n glir i sicrhau fod yna ddigon o ryddid i amrywio'r gofyniadau pan na fydd gwerth y tir yn ddigon i dalu costau cronol y dyletswyddau cynllunio yma a rhai eraill.</p>	<p>gilydd. Mae ymchwil yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar ran Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru i'r defnydd ac effeithiau Cytundebau Adran 106, dyletswyddau cynllunio ac ystyriaeth o Ardoll Seilwaith Cymunedol yn y dyfodol. Bydd yr ymchwil yma'n cael ei ddefnyddio pan fydd y canllawiau cynllunio lleol yn cael eu hadolygu.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond os bydd ysgol yn debyg o gael ei rhoi o dan bwysau gan ddatblygiad y gofynnir am gyfraniadau.</p>	
	<p>18. Rydyn ni o'r farn fod cyfnod o 10 mlynedd i ddal taliadau heb eu gwario yn gyfnod llawer rhy hir. Felly, rydyn ni'n credu y dylai'r cyfnod ar gyfer dal cyfraniadau addysg gael ei leihau i 5 mlynedd ac y dylid cael strategaeth glir yn dangos lle bydd y cyfraniadau'n cael eu defnyddio a pha bryd y bydd yr arian yn cael ei wario.</p>	<p>Mae'r rhaglen cyfalaf Ysgolion yn rhedeg am gyfnod o 10 mlynedd felly mae'n rhaid ac mae'n rhesymegol i'r Cyngor gadw at y cyfnod o 10 mlynedd. Nid yw'r cyfraniadau y gofynnir amdany'n nhw o dan y canllawiau yma'n ddigon i dalu holl gostau darparu rhagor o leoedd mewn ysgolion. Bydd yn rhaid i'r Cyngor hefyd, bob amser, gynllunio drwy'r Rhaglen Cyfalaf Ysgolion ar gyfer talu'r costau llawn. Bydd yn glir ym mhob Cytundeb Adran 106 ar beth y bydd y cyfraniadau'n cel eu gwario.</p>	<p>Dim gweithredu</p>

	19. Rydyn ni o'r farn y dylai'r nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol ddatgan y bydd unrhyw arian na fydd yn cael ei wario'n cael ei ad-dalu gyda llogau.	Derbynnir y bydd hyn yn rhan o'r Broses Adran 106.	Ychwanegu 'gyda llogau' ar ddiwedd pwynt 6 ym mharagraff 3.1.
Walsingham Planning - Mark Krassowski	20. Nid ymddengys y gwnaed unrhyw asesiad o'r rhagamcanion lleoedd yn y tymor canolig a hir. Efallai fod yna brinder mewn ysgol leol ar hyn o bryd lle bwriedir datblygu ond os yw demograffeg yr ardal yn newid ac yn arwain at lai o blant yn yr ysgol honno yn y tymor canolig neu hir, byddai'n ddefnydd aneffeithiol o adnoddau i fuddsodd mewn rhagor o leoedd mewn ystafelloedd dosbarth ar gyfer y tymor byr yn unig.	Mae'r wybodaeth ar gael drwy'r Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes. Yn amlwg, gan fod nifer y disgyblion mewn ysgolion yn amrywio, ni ellir cynnwys yr wybodaeth yn y nodyn canllawiau ond derbynnir y dylid cael rhagor o wybodaeth yn y nodyn er mwyn ei gwneud yn glir y defnyddir yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn y broses drafod.	Diwygio paragraff 2.5 yn y nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol i ddarllen 'Gan ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf diweddar sydd gan y Cyngor, bydd effeithiau'r gofyn am leoedd ysgol ac effeithiau'r cynllun moderneiddio ysgolion yn y dyfodol ar ysgolion yng nghyffiniau'r datblygiad trigiannol newydd yn cael eu hystyried adeg y cais cynllunio a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r broses drafod ar y pryd.'
	21. Dylid ei gwneud yn glir y telir sylw i newid mewn darpariaeth addysg mewn ardal o ganlyniad i bolisi cenedlaethol neu leol wrth gymhwyso'r Canllawiau Cynllunio Lleol ar gyfer y cynnig i godi tai.	Derbynnir, gweler pwynt 20 uchod.	Fel pwynt 20 uchod.
	22. Nid oes eglurhad na chyfiawnhad yn y Canllawiau Cynllunio Lleol ar gyfer defnyddio ffigwr sbardun o 10% o leoedd gwag neu lai nag 20 o leoedd gwag	Gweler yr ymateb i bwynt 8	Newid y nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol, gweler y newidiadau ym mhwynt 8

	mewn gwirionedd.		
	<p>23. Mae'r Canllawiau Cynllunio Lleol yn ceisio defnyddio tariff safonol ar nifer yr unedau tai waeth beth yw maint yr unedau hynny, Er enghraifft, mae llai o blant yn debycah o fod mewn datblygiad o ddeg uned drigiannol gyda 2/3 ystafell wely na datbygiad unedau gyda 4/5 ystafell wely. Gan fod y meini prawf yma'n berthnasol i bump neu ragor o anheddau, mae'r cymhlethdodau'r amrywiadau yma'n debyg o amlygu eu hunain yn ymarferol gan fod llai o amrywiaeth ym maint yr unedau'n debygol o fod mewn datblygiadau trigiannol llai.</p>	<p>Dydyn ni ddim yn defnyddio system pwysedd, mae hynny'n cadw'r fformiwla'n syml, er bod unedau un ystafell wely'n cael eu heithrio. Mae'r lluosydd yn amcangyfrif yn gyffredinol faint o ddisgyblion y gellir eu disgwyl o ddatblygiad tai. Mae'r ffigurau o 0.24 ar gyfer disgyblion cynradd ac 0.174 ar gyfer rhai uwchradd yn ofynion cymharol isel o gymharu ag awdurdodau eraill gan eu bod yn gyfartaledd ar draws pob mathau o dai. Mae'n berthnasol hefyd nodi nad yw addysg feithrin nac ôl 16 yn cael ei grybwyll felly, o gymharu ag awdurdodau eraill, mae gofynion Sir y Fflint yn llai beichus. Diben y nodyn canllawiau hwn yw gosod y fframwaith ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ofalus yn ôl amgylchiadau'r datblygiad a bydd y nodyn hwn yn sail i'r broses drafod.</p>	Dim gweithredu

	<p>24. Mae'r darpariaethau'r Canllawiau Cynllunio Lleol yn rhai 'y cwbl neu ddim' ar gyfer ei ofynion am gyfraniadau ariannol. Er enghraifft, os bwriedir adeiladau 20 o unedau ond fod yna ddigon o le ar gyfer 50% o blant o'r unedau cyn mynd dros y pwynt sbardun, yna dim ond am gyfraniad ariannol gan gyfran o'r unedau a fyddai'n torri dros y trothwy y dylid gofyn (h.y. 10 uned) yn hytrach na gan y datblygiad i gyd. Dylid newid y Canllawiau i gael gwared ar yr anhegwch yma.</p>	<p>Gweler yr ymateb i bwynt 8</p>	<p>Newid y nodyn Canllawiau Cynllunio Lleol, gweler y newidiadau ym mhwynt 8</p>
	<p>25. Nid oes unrhyw eglurhad yn y Canllawiau Cynllunio Lleol sut y mae dalgylchoedd yn cael eu diffinio.</p>	<p>Mae Polisi Derbyn Cyngor Sir y Fflint i'w weld yn y ddogfen 'Canllaw i Wasanaethau Addysg 2011'. Nid yw'r Sir yn defnyddio 'dalgylchoedd' ac mae'r ddogfen hon yn manylu ar y meini prawf derbyn sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cymhwysedd i ysgolion Meithrin, Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd. Mewn perthynas â derbyn i Ysgolion Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd mae'r polisi'n datgan ym meini brawf 'b' fod 'disgyblion mai eu hysgol o ddewis yw'r ysgol briodol agosaf at gyfeiriad cartref y disgyblion'. Mae troed nodyn pellach yn datgan 'Os oes mwy o ymgeiswyr na lleoedd mewn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw</p>	<p>Dim gweithredu</p>

		<p>agosaf at yr ysgol, yn cael ei fesur o gyfeiriad cartref y plentyn at brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol’.</p> <p>Yn amlwg, os nad oes lle yn yr ysgol agosaf, bydd y disgybl yn cael cynnig lle yn yr ysgol agosaf nesaf, neu gallai’r rheini fynd i apêl. Fodd bynnag, mae Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint yn datgan y dylid cydweithio i sicrhau ein bod yn lleihau ein ôl troed carbon drwy lleihau patrymau teithio ac adeiladu cymunedau cynaliadwy. Felly, fe ddylem ddarparu ar gyfer anghenion gwasanaethau cymunedau lleol o fewn y cymunedau hynny yn ôl y strategaeth a pheidio â chludo disgyblion i gymunedau sy’n fwy na 2 filltir i ffwrdd. Dylai datblygwyr felly fod yn cyfrannu at ddarparu’r gwasanaethau hynny o fewn y cymunedau lle maen nhw’n datblygu. Yn aml, bydd presenoldeb ysgol leol yn cael ei ddefnyddio fel teclyn marchnata positif ar gyfer datblygiad newydd gerllaw.</p>	
	<p>26. Mae’r Canllawiau Cynllunio Lleol yn dangos y defnyddir y cyfraniadau a gesglir ar gyfer darparu ysgolion neu ystafelloedd dosbarth newydd neu i ddarparu adnoddau neu welliannau</p>	<p>Fel y gwelir o’r nodyn, dim ond i ychwanegu at leoedd yn yr ysgolion hynny y gofynnir am gyfraniadau ar eu cyfer y defnyddir cyfraniadau datblygwyr. Gallai hyn olygu ymestyn yr</p>	<p>Newid y trydydd pwynt bwled o dan baragraff 4 Defnyddio Cyfraniadau fel a ganlyn:-</p>

	ychwanegol oherwydd y cynnydd yn y gofyn. Nid yw'n glir beth a olygir gan adnoddau ychwanegol a dylai fod yn glir mai dim ond ar waith adeiladu sy'n arwain at ragor o leoedd yn yr ysgol honno y bydd cyfraniadau addysg yn cael eu defnyddio ac er mwyn diwallu'r gofyn yn codi o'r datblygiad trigiannol arfaethedig.	adeiladwaith neu gallai olygu ailwampio gofod mewnol ysgol a darparu adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwelliannau er mwyn i'r ysgol a effeithir ddarparu digon o le ar gyfer y disgyblion ychwanegol.	<ul style="list-style-type: none"> Darparu lle, gwelliannau ac adnoddau cysylltiedig er mwyn galluogi'r ysgol/ion sy'n cael eu heffeithio i gael digon o le ar gyfer y disgyblion ychwanegol. <0}
	27. Mae'r Canllawiau Datblygu Lleol yn dangos y bydd cyfraniadau'n cael eu gwario o fewn 10 mlynedd o'u derbyn. Ystyrir fod hyn yn gyfnod rhy hir ar gyfer gwario'r arian.	Mae'r rhaglen cyfalaf Ysgolion yn rhedeg am gyfnod o 10 mlynedd felly mae'n rhaid ac mae'n rhesymegol i'r Cyngor gadw at y cyfnod o 10 mlynedd. Nid yw'r cyfraniadau y gofynnir amdany'n nhw o dan y canllawiau yma'n ddigon i dalu holl gostau darparu rhagor o leoedd mewn ysgolion. Bydd yn rhaid i'r Cyngor hefyd, bob amser, gynllunio drwy'r Rhaglen Cyfalaf Ysgolion ar gyfer talu'r costau llawn.	Dim gweithredu
	28. Does dim eglurhad yn y Canllawiau Cynllunio lleol pe byddai datblygiad trigiannol arfaethedig mewn dalgylch mwy nag un ysgol gynradd neu uwchradd. Ni fyddai'n briodol casglu cyfraniadau ariannol yn seiliedig ar brinder lle mewn un ysgol pan fyddai gan un arall leoedd dros ben. Dylai'r canllawiau gynnwys eglurhad ar hyn.	Mewn perthynas â derbyn i Ysgolion Babanod, Iau, Cynradd ac Uwchradd mae'r polisi'n datgan ym meini brawf 'b' fod 'disgyblion mai eu dewis ysgol yw'r ysgol briodol agosaf at gyfeiriad cartref y disgyblion'. Mae troed nodyn pellach yn datgan 'Os oes mwy o ymgeiswyr na lleoedd mewn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr	Dim gweithredu

		<p>sy'n byw agosaf at yr ysgol, yn cael ei fesur o gyfeiriad cartref y plentyn at brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol'.</p> <p>Yn amlwg, os nad oes lle yn yr ysgol agosaf, bydd y disgybl yn cael cynnig lle yn yr ysgol agosaf nesaf, neu gallai'r rheini fynd i apêl. Fodd bynnag, mae Strategaeth Gymunedol Sir y Fflint yn datgan y dylid cydweithio i sicrhau ein bod yn lleihau'n ôl troed carbon drwy leihau patrymau teithio ac adeiladu cymunedau cynaliadwy. Felly, dylem ddarparu ar gyfer anghenion y cymunedau am wasanaethau lleol o fewn y cymunedau hynny yn ôl y strategaeth a pheidio â chludo disgyblion i gymunedau sy'n fwy na 2 filltir i ffwrdd. Dylai datblygwyr felly fod yn cyfrannu at ddarparu'r gwasanaethau hynny o fewn y cymunedau lle maen nhw'n datblygu. Yn aml, bydd presenoldeb ysgol leol yn cael ei ddefnyddio fel teclyn marchnata positif ar gyfer datblygiad newydd gerllaw.</p>	
--	--	---	--

	Ar ôl cyfarfod gyda Mike Pender (MP) o Anwyl Construction ar 10 Chwefror 2012 trafodwyd nifer o faterion.		
Anwyl Construction. Mike Pender	<ul style="list-style-type: none"> - Dylai ffigurau rhagamcanion disgyblion fod ar gael. - - Gofynnodd MP am eglurhad ynghylch yr ysgol addas agosaf, polisi'r cyngor a'r trothwy tair milltir ar gyfer cludiant ysgol am ddim. <0} 	<p>-Cytunodd Tom Davies (TD) o Ddysgu Gydol Oes y gellid eu hanfon at MP ond y dylid bod yn ofalus wrth eu defnyddio gan mai rhagamcanion unig yw'r rhain ac y gallen nhw newid.</p> <p>- Nid yw'r rhain yn debyg o ddod i rym tan 2014</p> <p>- Ymatebodd TD drwy ddweud nad yw cludiant ysgol am ddim yn berthnasol, yr ysgol agosaf addas a fydd yn cael ei heffeithio gan y datblygiad yw'r mater perthnasol.</p>	<p>Newid y geiriad yn y nodyn canllaw i'w gwneud yn eglur mai ar gyfer yr ysgol agosaf addas y mae'r cyfraniadau. Dileu paragraff 2.3 a rhoi'r canlynol yn ei le:-</p> <p>“Mae amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu cynaliadwy yn cynnwys y dylid gosod datblygiadau fel ag i leihau'r angen i deithio ac i hyrwyddo mynediad i amrywiaeth o ddarpariaethau cymunedol, gan gynnwys addysg, ac, yr un pryd, yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol a lles cymdeithasol. Pan fydd datblygiad newydd yn digwydd mewn</p>

			<p>cymuned, gall hynny gael effaith arwyddocaol ar adnoddau megis lleoedd mewn ysgolion lleol. Mewn achosion fel hyn, bydd y cyngor yn gofyn am gyfraniadau priodol gan ddatblygwyr er mwyn lliniaru'r effeithiau ar yr ysgol agosaf, addas, at eu datblygiad.</p> <p>Hefyd, dileu'r pedair brawddeg olaf ym mharagraff 3.1 pwynt 2 a rhoi'r canlynol yn ei le:- "Bydd yr Awdurdod Lleol yn dal y cyfraniadau i dalu am waith yn yr ysgolion hynny sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y datblygiad.</p> <p>Bwriedir hefyd gwneud mân newidiadau i'r enghreifftiau yn y fformiwla i egluro'n well sut y mae'n gweithio.</p>
--	--	--	---